# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION
# DYDD MAWRTH, 7 TACHWEDD 2023

**YN BRESENNOL:**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes, Medwyn Hughes, Nia Jeffreys, Eryl Jones-Williams, June Jones, Cai Larsen, Anne Lloyd-Jones, Dafydd Meurig, Beth Lawton, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Menna Trenholme a Rob Triggs

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Menna Trenholme yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2023 / 24**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Nia Jeffreys yn Is Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer
2023 / 24**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gwynfor Owen

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10fed o Chwefror 2023 fel rhai cywir

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

## 8. TYNNU RHESTR FER PENNAETH ADDYSG

Adroddodd y Prif Weithredwr bod 5 cais wedi ei derbyn am y swydd ac fe gyflwynodd grynodeb o'r ceisiadau.

Trafodwyd y ceisiadau yn unol â gofynion y swydd gan ganolbwyntio ar y prif gymwyseddau.

Cynigiwyd ac eiliwyd rhoi pedwar ymgeisydd ar y rhestr fer

**PENDERFYNWYD:**

**RHOI PEDWAR YMGEISYDD AR Y RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH ADDYSG**

Wrth ymhelaethu ar y camau nesaf, amlygodd Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) y byddai'r pedwar ymgeisydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfres o ymarferion ar-lein a chyda seicolegwyr busnes. Ategodd y byddai Canolfan Asesu mewnol yn cael ei chynnal 20fed o Dachwedd 2023, ynghyd a threfniadau asesu pellach o dan arweiniad y Prif Weithredwr. Bydd adborth o ymatebion a pherfformiad yr ymgeiswyr yn cael eu cyflwyno ar lafar gan y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ar ddiwrnod y cyfweliadau.

Nodwyd y bydd cwestiynau ar gyfer y cyfweliad yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau am sylwadau.

Cynigwyd bod Aelod Cabinet Addysg yn cael gwahoddiad i fod yn rhan o'r broses.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 11.00 y.b.

**CADEIRYDD**